YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF: 89/2023
DYDDIAD CYHOEDDI: 03/10/2023

# Archwilio diwygio'r flwyddyn ysgol

## Crynodeb

1. Mae Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn cyflwyno diwygiadau i'r cwricwlwm yng Nghymru, ynghyd â gweithredu polisïau penodol i wella ansawdd addysg a chynyddu'r graddau y caiff rhieni a chymunedau eu cynnwys. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r ffordd mae'r calendr ysgol wedi ei strwythuro â'r potensial i gefnogi a galluogi'r diwygiadau hyn. Yn yr un modd, mae'n flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru i wella canlyniadau addysgol i ddysgwyr difreintiedig. Caiff pob polisi a ystyrir gan Lywodraeth Cymru ei farnu ar sail a yw'n helpu mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.
2. Mae'r crynodeb hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau o'r ymchwil fu'n archwilio profiadau a chanfyddiad dysgwyr, eu teuluoedd ac ymarferwyr ysgol o'r calendr ysgol presennol. Bydd y canfyddiadau'n helpu Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniadau ynghylch y flwyddyn ysgol ac yn sicrhau darparu calendr ysgol a fydd â'r siawns orau o helpu lliniaru effeithiau amddifadedd, lleihau anghydraddoldeb addysgol, cefnogi llesiant dysgwyr a staff ac a fydd yn gydnaws â phatrymau cyfoes bywyd teuluol a chyflogaeth.
3. Mae strwythur presennol y flwyddyn ysgol (neu academaidd) yng Nghymru:
   - yn dechrau yn gynnar ym mis Medi ac yn gorffen ganol mis Gorffennaf.
   - yn darparu 190 o ddyddiau ysgol, bob un tua 6.5 awr o hyd.
   - wedi'i rannu'n dri thymor o hyd amrywiol ac iddynt wyliau o un wythnos tua chanol pob tymor.

**Ffigur 1.1: Strwythur presennol y flwyddyn ysgol yng Nghymru**

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tymor 1 | 1 | Tymor 1 | 2 | Tymor 2 | 1 | Tymor 2 | 2 | Tymor 3 | 1 | Tymor 3 | 6 |
| Medi | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chwe | Maw | Ebr | Mai | Meh | Gorff | Awst |

## Methodoleg

4. Defnyddiodd yr ymchwil ddull dilyniannol cymysg o gasglu adborth ar bedwar prif faes:

- cynnydd a chyrhaeddiad
- blinder a llesiant
- ymddygiad dysgwyr
- pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

5. Cyflawnwyd gwaith maes ansoddol gyda rhanddeiliaid, ac adolygiad desg o setiau data a oedd bod eisoes, mewn tri cham.

6. Cyflawnwyd 15 o gyfweliadau cwmpasu gyda grŵp cynrychioliadol o randdeiliaid allweddol.

7. Adolygwyd nifer o setiau data allweddol, gan gynnwys data cyfrifiadau disgyblion, data absenoldeb dysgwyr a staff, data gwaharddiadau a data cyrhaeddiad.

8. Cafodd grwpiau ffocws y prif waith maes eu trefnu i ystyried ffactorau gan gynnwys oedran dysgwyr, statws economaidd-gymdeithasol dysgwyr a theuluoedd, cyd-destun gwledig/trefol, statws anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr, ac iaith cyfrwng dysgwyr ac iaith cyfrwng eu hysgol. Roedd y gwaith maes yn cynnwys:

- Deg grŵp ffocws dosbarth o ddysgwyr ar draws wyth o ysgolion.
- Holiadur a rannwyd gydag aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru.
- 11 o grwpiau ffocws gyda rhieni dysgwyr yng Nghymru
- 28 o grwpiau ffocws gydag ymarferwyr ysgol.

9. Cyflawnwyd dadansoddiad thematig yn nodi cyd-destun pob pwynt data mewn ffordd na fyddai'n ddatgelu enw unrhyw gyfranogwr unigol. Mae gwybodaeth fanylach ar y fethodoleg ar gael yn adran 2 yr adroddiad.

## Canfyddiadau

### Cynnydd a chyrhaeddiad

10. Ym marn ymarferwyr, rhieni a dysgwyr, mae'r gwyliau o 6 wythnos yn achosi colled dysgu i bob dysgwr. Ychydig iawn o effaith barhaol sydd i'r golled hon gydag adferiad yn digwydd yn fuan ar ôl cychwyn tymor yr Hydref. Roedd rhieni'n gweld yr amser gyfer dal i fyny fel amser 'coll' o safbwynt dysgu. Yn yr un modd, mae wythnosau olaf tymor yn cael eu gweld fel amser o ddirwyn y tymor i ben pan nad oes fawr o ddysgu ystyrlon yn cael ei wneud.

11. Mae'r rhan fwyaf o gynnwys addysgu yn cael ei gyflwyno yn nhymor yr Hydref, gan mai dyma'r tymor hiraf yn gyson. Mae hyn yn amlwg i ddysgwyr eu hunain a ddywedodd ei fod yn cynyddu lefelau blinder. Adegau eraill sy'n anodd ar gyfer dysgu yn ôl dysgwyr yw diwedd pob tymor a thros dymor yr haf gan fod tywydd cynnes a nosweithiau goleuach yn effeithio ar gwsg ac ar ganolbwyntio yn y dosbarth. O safbwynt yr uwch dimau arwain mewn ysgolion uwchradd, mae'r gwyliau haf 6-wythnos yn hanfodol er mwyn caniatáu seibiant i ddysgwyr mewn blynyddoedd arholiadau (blwyddyn 10+) ac felly i gynnal cyfradd cynnydd dysgwyr drwy gydol y flwyddyn.

12. Roedd staff a rhieni yn pwysleisio mai ar ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol mae'r calendr ysgol presennol yn effeithio fwyaf. Mae colled dysgu yn ystod gwyliau i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn fwy amlwg i staff a rhieni mewn lleoliadau prif ffrwd nag yw o ddysgwyr nad oes ganddynt anghenion dysgu ychwanegol. Gall tarfu ar arferion rheolaidd effeithio mwy ar ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ac roedd rhieni'n nodi bod angen mwy o amser ar gyfer adfer cyrhaeddiad o gymharu â'u cyfoedion. Fodd bynnag, roedd staff ym mhob mathau o ysgolion yn haeru eu bod yn disgwyl lefelau uwch o golled mewn dysgu a'u bod yn barod am hyn. Roeddent yn pwysleisio bod ansawdd y cymorth a natur anghenion dysgu ychwanegol penodol yn ffactorau pwysicach wrth ymdrin â'r golled dysgu na'r calendr ysgol.

13. Grŵp arall yr effeithir yn fwy arnynt o safbwynt cynnydd a chyrhaeddiad yw'r rheini sydd o gefndiroedd difreintiedig yn gymdeithasol ac economaidd. Dywedodd rhieni fod eu plant yn ei chael yn anodd cynnal momentwm dysgu yn ystod tymor hir yr Hydref. Yn yr un modd, roedd rhieni dysgwyr o gefndiroedd mwy difreintiedig yn dweud eu bod yn llai tebygol o gael mynediad at glybiau gwyliau penodol neu gweithgareddau cyfoethogi profiadau eraill. Y farn oedd bod hyn yn wir ym mhob cyfnod gwyliau ond yn enwedig yn ystod gwyliau'r haf.

14. O safbwynt staff, mae colled sgiliau iaith i bawb sy'n dysgu mewn iaith wahanol i'r hyn a siaredir gartref. Mae hyn yn cael ei weld fel rhywbeth tebyg i'r golled dysgu sgiliau eraill, ac nid oedd yn cael ei amlygu fel maes o bryder penodol.

15. Teimlai rhai staff ac uwch dimau arwain mewn ysgolion uwchradd fod yr anghysondeb yn hyd tymhorau'r gwanwyn a'r haf yn cael effaith benodol ar adolygu ac ar y teimlad o fod yn barod am arholiadau. Dywedodd y rhan fwyaf o ddysgwyr fod yn well ganddynt adolygu a pharatoi ar gyfer arholiadau yn yr ysgol.

16. Roedd rhieni yn y grŵp economaidd-gymdeithasol is sydd â phlant mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn pwysleisio pwysigrwydd y gwyliau estynedig gan ei fod yn caniatáu i "blant fod yn blant" a chael amser i ffwrdd oddi wrth yr ystafell ddosbarth.

**Llesiant a blinder**

17. Roedd cysylltiad amlwg rhwng y calendr ysgol a blinder i ddysgwyr, staff a rhieni. Adroddir yn helaeth am flinder dysgwyr ar ddiwedd pob tymor. Roedd athrawon mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig yn adrodd bod blinder yn cael effaith sylweddol tua chwe wythnos i mewn i'r tymor ysgol. Ar y pwynt hwn yn nhymor yr Hydref, ychwanegir at y blinder gan ddwysedd deunydd newydd, a chychwyn firysau'r gaeaf. Y farn oedd bod hyn yn arbennig o nodedig i ddysgwyr niwroamrywiol a'r rheini sy'n teithio ymhellach i'r ysgol.

18. Roedd pryder helaeth ymysg staff a rhieni am ddysgwyr difreintiedig. I staff uwch dimau arwain mewn ysgolion uwchradd a chynradd, ni ellid honni bod

gwyliau o chwe wythnos yn yr haf yn cefnogi llesiant dysgwyr i'r dysgwyr hyn. Gall diffyg strwythur effeithio ar batrymau cwsg hefyd dros yr haf, gyda chysylltiad yn cael ei wneud rhwng cwsg a llesiant. Gall y tarfu ar drefniadau arferol effeithio ar lesiant dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

19. Roedd pawb o'r staff yn dweud bod strwythur presennol y flwyddyn ysgol yn rheswm dros flinder ymysg ymarferwyr sydd â chysylltiad â lefel blinder mewn dysgwyr. Adrodd gan rai athrawon mai'r gwyliau haf yw'r unig siawns gwirioneddol mae staff yn ei gael i roi'r gorau i weithio, gan fod y gwyliau hanner tymor a rhannau o'r gwyliau pythefnos dros y Nadolig a'r Pasg yn cael eu cymryd gan farcio a gwaith gweinyddol arall.

20. Roedd diflastod ymysg dysgwyr yn bryder ymysg rhieni a ddywedodd na allent fforddio darparu gweithgareddau ystyrlon i'w plant dros y gwyliau. I rieni plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol y teimlad oedd bod rhy ychydig o gyfleoedd y tu allan i'r ysgol i blant fanteisio arnynt. I rieni sy'n siarad Cymraeg, neu sydd â phlant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae gwahaniaeth rhwng y nifer llai o weithgareddau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg o gymharu â'r rheini a gynigir yn y Saesneg. Roedd rhieni yn pwysleisio bod llai o ryngweithio cymdeithasol i bob dysgwr yn ystod gwyliau'r haf. Roedd cychwyn tymor yr Hydref yn cael ei weld fel rhywbeth cadarnhaol, sy'n cynyddu cymdeithasu gyda chymheiriaid.

21. Dywedodd rhieni fod eu teimladau eu hunain o straen yn effeithio ar lesiant eu plant ac mai achos cyffredin straen yw'r anhawster wrth drefnu gwyliau i rieni o'u gwaith yn ystod gwyliau ysgol.

22. Er na phriodolir hyn i'r calendr ysgol ei hun, roedd pawb o'r rhieni yn nodi mwy o salwch mewn dysgwyr yn y cyfnod sy'n arwain at wyliau'r Nadolig. Roedd yn cael ei dderbyn yn helaeth ymysg pawb o'r staff y bydd cychwyn unrhyw gyfnod gwyliau yn eu gweld yn dioddef gyda salwch. Yn ystod cyfnodau o hanner tymor hirach mae mwy o achosion o salwch staff yn ystod y tymor.

23. Gall y calendr ysgol effeithio ar dâl rhai staff. Oherwydd gwahaniaethau mewn contractau, mae rhai cynorthwywyr addysgu a staff cymorth eraill nad ydynt yn cael eu talu yn ystod gwyliau hir. Dywedodd athrawon y byddent o

blaid dyddiadau tymor cyson ledled Cymru fel bod gwyliau'n gyson rhwng staff ysgolion ac unrhyw blant oedran ysgol a all fod ganddynt mewn gwahanol ysgolion. Fodd bynnag, gall fod yn anodd i staff pan nad yw dyddiau hyfforddi neu wyliau ysgol yn gyson ledled Cymru na chyda Lloegr.

24. Dywedodd pawb o'r rhieni fod problemau presenoldeb nad ydynt yn gysylltiedig â salwch ar eu huchaf yn union cyn y Nadolig ac yn ystod diwedd tymor yr haf. Dywedwyd mai ffactorau sy'n effeithio ar hyn yw cost gwyliau, a chanfyddiad o werth is o ran dysgu yn ystod yr wythnosau hyn. Mae graddau uwch o flinder sy'n amlwg mewn dysgwyr hefyd yn dylanwadu ar rieni i gadw eu plant o'r ysgol.

25. Caiff gwyliau'r haf ei weld yn helaeth gan uwch dimau arwain ac athrawon fel caffaeliad hanfodol i ysgogi recriwtio i'r sector addysg. Roedd uwch dimau arwain ac athrawon yn dweud nad yw'r gwyliau aml yn wyliau yn ymarferol a'u bod yn cael ei defnyddio gan athrawon i ddal i fyny gyda gwaith gweinyddol. Nid oedd effaith hyn ar lesiant athrawon newydd gymhwyso yn cael ei weld gan staff presnnol yn wahanol i'r effaith mae'n ei gael ar lesiant aelodau eraill o staff. Fodd bynnag, yn ôl aelodau uwch dimau arwain mae'n ffactor yn y nifer o staff sy'n gadael y proffesiwn yn gynnar ac y gall chwarae rhan negyddol wrth gadw athrawon newydd gymhwyso.

**Ymddygiad dysgwyr**

26. Wrth i flinder gynyddu, mae digwyddiadau o ymddygiad sy'n tarfu ar eraill hefyd yn cynyddu, (waeth beth fo'r adeg o'r flwyddyn) yn ôl staff ym mhob ysgol. Yn y mwyafrif o achosion roedd athrawon yn dweud bod ymddygiad dysgwyr yn wael ym mis Medi ac yn gwella ar ôl pob gwyliau eraill. Dywedodd staff addysgu fod rhai dysgwyr yn cael anawsterau gyda'u hymddygiad yn y cyfnodau sy'n arwain at wyliau, a'i fod yn arbennig o amlwg mewn dysgwyr o grwpiau o dan fwy o anfantais economaidd, er nad oedd wedi ei gyfyngu i'r dysgwyr hyn. Nid ymddengys fod unrhyw broblemau ymddygiad amlwg dros wyliau'r haf; er y gellir priodoli hyn hefyd i leihad mewn diffyg cyfleoedd i gofnodi digwyddiadau na thynnu sylw at faterion diogelu. Dywedodd gweithwyr ieuenctid fod problemau ymddygiad yn tueddu i begynnu ym misoedd Hydref a Mawrth.

27. Mae ffactorau sy'n cyfrannu at broblemau ymddygiad yn cynnwys tarfu ar drefniadau arferol yn ôl staff a rhieni, blinder yn ôl rhieni a dysgwyr, diflastod yn ôl rhieni, ansawdd bywyd cartref yn ôl staff a thywydd a thymor yn ôl staff a dysgwyr.

**Pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd**

28. Mae staff addysgu wedi adrodd nad yw'r calendr ysgol yn cael fawr o effaith gweladwy ar y pontio o ysgol gynradd i ysgol uwchradd. Caiff gwyliau'r haf eu gweld gan staff fel gwyliau sydd wedi eu diffinio'n glir rhwng prif gyfnodau addysg i ddysgwyr. Gwnaed rhai cysylltiadau rhwng gwyliau hir yr haf a phryder dysgwyr ynghylch y pontio i ysgol uwchradd. Roedd dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu gweld fel rhai sydd mewn risg penodol oherwydd y cyfuniad o orbryder a heriau ynghylch pontio, yn ogystal â'r heriau eraill mae gwyliau'r haf yn eu hachosi i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Casgliad**

Mae'r ymchwil wedi amlygu bod gan y calendr ysgol, ym mhrofiadau a chanfyddiadau dysgwyr, rheini ac ymarferwyr ysgol, rôl bwysig yn llesiant dysgwyr a staff. Y teimlad yw yr effeithir yn negyddol ar ymddygiad, a chyrhaeddiad a chynnydd dysgwyr. Mae anghysondeb mewn hyd tymhorau yn cynyddu lefelau blinder ar bwyntiau penodol o'r flwyddyn ac yn effeithio ar agwedd at ddysgu ar bwyntiau allweddol megis diwedd tymhorau'r hydref a'r haf. Y teimlad oedd bod pob dysgwr yn elwa, o safbwynt llesiant, cyrhaeddiad a chynnydd, o'r cymorth a gynigir gan yr ysgol yn gyffredinol, gyda'r budd mwyaf yn cael ei weld mewn dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig, a dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r gwyliau haf 6 wythnos yn amlygu'r mynediad annheg at weithgareddau a chefnogaeth yn ystod adegau gwyliau, gyda'r rheini mewn teuluoedd ag incwm is neu ag anghenion dysgu ychwanegol o dan anfantais yn aml. Mae'r golled dymor byr mewn dysgu yn gysylltiedig â'r gwyliau haf hir i raddau mwy nag unrhyw wyliau eraill. Y farn yw nad yw'r gwyliau byrraf yn cael fawr o effaith o ran mynd i'r afael â lefelau o flinder a llesiant, gyda dwy wythnos yn cael eu hystyried yn fwy buddiol gan un. Mae'r canfyddiadau hyn yn

awgrymu y gallai newidiadau i'r calendr ysgol wella lefelau llesiant a blinder mewn dysgwyr a staff, helpu mynd i'r afael ag amddifadedd, a chefnogi cyrhaeddiad a chynnydd dysgwyr.

Awduron yr Adroddiad: Andrews, G., Howells, J., KilBride, K., Richardson, M., Wheeler, S., Miller Research, Roberts, M.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Andrews, G., Howells, J., KilBride, K., Richardson, M., Wheeler, S., Miller Research, Roberts, M. (2023). Archwilio canfyddiadau a phrofiadau o'r calendr ysgol presennol yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR rhif adroddiad 89/2023.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/diwygior-flwyddyn-ysgol-canfyddiad-phrofiadau-or-calendr-ysgol-presennol

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â'r:
Gangen Ymchwil Ysgolion
Adran Ymchwil a Gwybodaeth Gymdeithasol
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

E-bost: ymchwilysgolion@llyw.cymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83504-812-2